**Strategaeth Hyfforddiant Diogelu**

## Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r dull o ddysgu am ddiogelu yn yr Eglwys yng Nghymru. Mae'n cydnabod pwysigrwydd darparu eglwysi diogel a diogelu pobl agored i niwed yn ein cymunedau. Mae'n nodi sut y bydd hyfforddiant diogelu'n cael ei gynllunio a'i ddarparu i alluogi cyfranogwyr i gael y sgiliau a'r wybodaeth i ddiogelu plant, ac oedolion mewn perygl.

## Llywodraethu a chyfrifoldeb

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru strwythur i ymateb yn gadarn a chyson i ddiogelu. Mae gan y Pwyllgor Diogelu drefniadau llywodraethu strategol ar gyfer diogelu. Mae'n adrodd i Bwyllgor Diogelu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru ac yn dal pawb i gyfrif am eu cyfrifoldeb diogelu. Mae'r rhain yn ymestyn drwy'r Eglwys. Mae Esgob Arweiniol ar gyfer Diogelu (yr Archesgob) yn darparu arweiniad a chyfeiriad taleithiol ar hyrwyddo eglwys ddiogel, gyda chymorth Esgobion Esgobaethau eraill. Mae clerigion a lleygion yn gweithio'n agos gyda Thîm Diogelu'r Dalaith i ddarparu cyngor a chymorth, darparu polisi, canllawiau a gweithdrefnau, a chymryd perchnogaeth am ddysgu am Ddiogelu. Mae hyfforddiant diogelu'r Eglwys yng Nghymru'n cael ei gynllunio a'i ddarparu gan hyfforddwyr profiadol, medrus. Maen nhw wedi ymrwymo i sicrhau bod yr Eglwys yn ddiogel a chroesawgar i bawb, ac yn deall gofynion diogelu plant ac oedolion yng nghyd-destun yr Eglwys.

## Diben Hyfforddiant Diogelu

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo'n llawn i ddiogelu fel rhan annatod o'i bywyd a'i gweinidogaeth. Mae diogelu'n gyfrifoldeb a rennir ac mae gan bawb swyddogaeth i'w chyflawni. Byddwn yn gweithio i gryfhau'r penderfyniad hwn drwy hyfforddiant, cymorth, cyfathrebu a sicrhau ansawdd. Bydd yr Eglwys yng Nghymru'n herio pob achos o gam-drin pŵer yng nghymunedau'r eglwys drwy sicrhau bod swyddogion eglwysi yn glynu at arferion gwaith diogel priodol ac yn cael eu cefnogi'n llawn i herio ymddygiad camdriniol. Byddwn yn hyrwyddo lles plant, ac oedolion, ac yn gweithio i atal camdriniaeth rhag digwydd. Byddwn yn cymryd gofal i nodi pobl a allai fod yn berygl i eraill ac yn cymryd camau i liniaru perygl wrth gynnig cymorth iddynt.

Rydym yn deall methiannau'r gorffennol a sut y defnyddiwyd neu y targedwyd cymunedau ffydd gan gyflawnwyr camdriniaeth. Rydym yn cydnabod yr angen i atal agweddau afiach fel taeogaeth, cyfrinachedd, ofn, plwyfoldeb, diniweidrwydd, pryder am enw da, sydd wedi bod yn rhan o ddiwylliant yr Eglwys ac wedi cael effaith negyddol ar ddiogelu. Bydd y strategaeth hon yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol fel y bo Diogelu'n cael ei wneud yn dda, a'i fod yn edau aur sy'n rhedeg drwy'r Eglwys. Mae Diogelu'n gyfrifoldeb i bawb.

## Gweledigaeth

Ein nod yw codi ymwybyddiaeth a gwybodaeth, gan ddylanwadu ar ymddygiad i gyflawni canlyniadau diogelu da o ganlyniad. Dylai'r profiad o ddysgu adael person yn wahanol mewn rhyw ffordd, a bydd hyfforddiant diogelu yn cael yr effaith hon – newid gweddnewidiol o

fewn yr amgylchedd dysgu. Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgysylltu â phobl i feddwl am eu credoau a'u gwerthoedd a sut y gall y rhain ddylanwadu ar ymddygiadau diogelu da. Byddwn yn annog pobl i ddeall diogelu fel gwerth annatod yr eglwys, un sy'n ein galluogi i herio ymddygiadau gwael a hyrwyddo arferion gorau. Byddwn yn hyrwyddo diwylliannau Cristnogol iach ar draws yr Eglwys yng Nghymru a fydd yn rhan hanfodol o'r Fframwaith Hyfforddiant Diogelu.

**Amcanion Hyfforddiant**

Mae yna lwybrau dysgu craidd sydd wedi'u datblygu ar gyfer dysgu i'w cyflawni yn dibynnu ar rôl. Bydd llawer o'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar hwyluso deialog fel y gall cyfranogwyr ddatblygu gwybodaeth ddiogelu gyda'i gilydd.

Mae'n hanfodol ac yn angenrheidiol i bawb allu deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu eraill a beth yw niwed a chamdriniaeth. Mae angen i bawb *Gydnabod* ac *Ymateb* i niwed a chamdriniaeth neu'r perygl o hynny'n digwydd. Mae angen iddynt wybod hefyd sut i *Gofnodi* ac *Atgyfeirio* pryderon diogelu. Bydd hyfforddiant diogelu'n nodi sut y mae'r rhain yn cael eu gwneud yn dda. Mae'n hanfodol bod unigolion yn gallu siarad am bryderon diogelu a bod pwy bynnag y maen nhw'n siarad â nhw yn eu cymryd o ddifrif ac yn gweithredu ar yr hyn maen nhw wedi'i glywed. Mae gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu ac mae'n rhan o'n dyletswydd gofal. Bydd darpariaeth hyfforddiant yn amlinellu arferion gorau, yn unol â Pholisi a chanllawiau Diogelu yr Eglwys yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys:

*Cydnabod arwyddion niwed a chamdriniaeth* – gwybod arwyddion a symptomau niwed a chamdriniaeth hyd yn oed pan na fyddant mor amlwg. Gorau oll y gallwn ni adnabod yr arwyddion rhybudd posibl, y mwyaf tebygol ydym ni o adnabod camdriniaeth ac o gymryd y camau priodol.

*Ymateb i bryderon diogelu* – mae disgwyl i bawb ymateb yn briodol i bryderon diogelu, datgeliadau neu gyhuddiadau. Mae yna egwyddorion cyffredinol perthnasol – gwneud y person i deimlo fod rhywun yn gwrando arno a'i fod yn cael ei gefnogi; peidio ag addo i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol; peidio ag ymchwilio i'r pryder; gofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth; hysbysu tîm diogelu'r dalaith er mwyn gallu penderfynu ar y camau gofynnol.

*Cofnodi* – Pan fydd pryder diogelu'n codi, dylai'r person sy'n ymwybodol o'r pryder hwnnw gadw cofnodion clir i sicrhau bod yna hanes o ddigwyddiadau, atebolrwydd a thystiolaeth mewn achosion llys. Mae'n rhaid cadw'r holl gofnodion yn ddiogel.

*Atgyfeirio* – mae'r Polisi Diogelu yn mynnu bod pryderon diogelu yn cael eu hatgyfeirio i dîm diogelu'r dalaith. Byddant yn cymryd cyfrifoldeb am yr holl bryderon, datgeliadau a chyhuddiadau a geir sy'n ymwneud â diogelu. Os oes pryder yn cael ei atgyfeirio'n uniongyrchol i awdurdodau statudol, dylid hysbysu tîm diogelu'r dalaith cyn gynted ag sy'n ymarferol. Byddant yn parhau i gadw mewn cysylltiad â'r heddlu a/neu adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol hyd nes y bydd yr ymholiadau ac ymyriadau statudol dilynol wedi eu cwblhau.

Bydd hyfforddiant diogelu hefyd yn archwilio materion pŵer a chamdriniaeth fel y cânt eu hamlygu yng nghyd-destun yr Eglwys, ac yn ystyried y rhwystrau (emosiynol, seicolegol a diwinyddol) a all atal hyrwyddo cymunedau eglwys iach.

Y tu hwnt i'r llwybrau dysgu craidd bydd dysgu pellach a fydd yn cwmpasu amrywiaeth o feysydd pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o ddiogelu pobl agored i niwed mewn amrywiaeth o leoliadau, e.e. cam-drin domestig, caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl, cam-fanteisio ar blant ac oedolion mewn perygl. Mae yna sesiynau sy'n archwilio ymddygiadau arweinyddiaeth effeithiol yn gysylltiedig â diogelu a'r goblygiadau y mae'r rhain yn eu cael ar ddiwylliant yn yr Eglwys. Mae pwysigrwydd prosesau recriwtio diogel yn cael eu pwysleisio. Mae'r effaith y mae camdriniaeth a thrawma yn ei chael ar unigolion, perthnasoedd, yr Eglwys a chymunedau'n cael ei harchwilio. Sut y gall arweinwyr ddatblygu a dylanwadu ar eglwysi diogel a chadw pobl yn ddiogel. Mae manylion y cyrsiau hyn a'u canlyniadau hyfforddiant penodol i'w gweld yn nogfen y Fframwaith.

## Cynllunio

Mae'r Fframwaith Hyfforddiant yn nodi'r hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer gwahanol rolau yn yr Eglwys. Mae Cronfa Ddata Hyfforddiant Diogelu 'Pobl fy Eglwys' yn cofnodi darpariaeth hyfforddiant diogelu i unigolion. Mae'n cymryd gwybodaeth o gronfeydd data esgobaethau a'r InfoNet mewn perthynas â'r gwahanol rolau yn yr Eglwys a manylion deiliaid swyddi unigol. Mae'n rhaid i Swyddfa'r Dalaith, esgobaethau ac ardaloedd gweinidogaeth gynnal gwybodaeth gywir i nodi a chofnodi'r holl bersonau perthnasol sydd angen hyfforddiant diogelu. Mae'r personau perthnasol hyn yn cynnwys:

- pob clerig, yn cynnwys y rhai sydd â chaniatâd i weinyddu;
- pob gweinidog lleyg trwyddedig, yn cynnwys darllenwyr ac ati;
- wardeiniaid eglwysi;
- aelodau cynghorau ardaloedd gweinidogaeth;
- gweithwyr lleyg a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion mewn perygl;
- ymgeiswyr sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant ffurfiol ar gyfer y weinidogaeth;
- ymwelwyr bugeiliol;
- personau sydd â swydd arwain neu gyfrifoldeb o fewn yr Eglwys yng Nghymru neu ar gyfer gweithgareddau'r eglwys

Mae'n rhaid i'r holl bersonau perthnasol gymryd cyfrifoldeb unigol i gwblhau hyfforddiant fel y cyfarwyddwyd gan Dîm Diogelu'r Dalaith ar y lefel briodol, bob tair blynedd, o leiaf. Byddai methiant i gwblhau hyfforddiant yn arwain at adolygu eu gallu i gyflawni eu rôl.

Mae'n rhaid i bob esgobaeth ac ardal weinidogaeth sicrhau bod prosesau ar waith i nodi pobl sy'n cael eu hystyried ar gyfer rôl ar y rhestr o bersonau perthnasol. Mae'n rhaid cwblhau hyfforddiant diogelu cyn rhoi caniatâd iddynt gyflawni dyletswyddau sy'n golygu eu bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac oedolion mewn perygl.

Mae nifer o gyfleoedd dysgu ar gael ar gyfer y gwahanol fodiwlau, gydag unigolion yn gallu archebu lle mewn sesiynau hyfforddiant diogelu. Mae'n rhaid i bob esgobaeth fonitro'r gofyniad hwn bob chwarter gan weithio mewn partneriaeth gyda Thîm Diogelu'r Dalaith.

Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn monitro ac yn asesu'r gofyniad a'r galw am hyfforddiant diogelu'n barhaus i ddarparu digon o adnoddau ar gyfer hyfforddiant.

## Darpariaeth hyfforddiant

Bydd darpariaeth modiwlau hyfforddiant diogelu yn digwydd drwy sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein fel y bo'n briodol gan hyfforddwyr pwrpasol Tîm Diogelu'r Dalaith. Bydd cynllun rheolaidd ar gyfer darparu modiwlau hyfforddiant diogelu'n cael ei gyhoeddi a'i ddarparu ar sail talaith ac esgobaeth, er mwyn bodloni'r galw.

Bydd yna dri chyfnod penodol o hyfforddiant yn cael eu darparu mewn un flwyddyn galendr. Eu nod yw dwyn i ystyriaeth cyfnodau pwysig, prysur ym mywyd yr Eglwys ac ymrwymiadau gwyliau yn ystod y flwyddyn a byddant fel a ganlyn:

Ionawr – Cyn y Pasg;

Ar ôl y Pasg i ddiwedd Gorffennaf;

Medi i ddechrau Rhagfyr.

Bydd hyfforddiant hefyd yn cynnwys datblygiad parhaus ar ffurf podlediadau, cylchlythyrau, gweithdai ac adnoddau ar-lein er mwyn ymgorffori diogelu ymhellach ar draws yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd pob un o'r uchod yn dilyn yr un egwyddor o ddeialog ac ymgysylltu mewn lle y gall pobl ymddiried ynddo. Bwriad y dull yw effeithio ar werthoedd ac ymddygiadau'r cyfranogwyr fel y gallant ddylanwadu ar ymddygiad i gyflawni canlyniadau diogelu da. Bydd yr hyfforddiant diogelu'n hyrwyddo diwylliannau Cristnogol iach ar draws yr Eglwys yng Nghymru.

Bydd Swyddogion Diogelu'r Dalaith yn cefnogi a chymryd rhan mewn hyfforddiant, i sicrhau bod enghreifftiau gwaith achos yn cael eu defnyddio i helpu cyfranogwyr i ddeall heriau diogelu penodol mewn amgylchedd eglwys.

## Monitro

Nod cyffredinol gweithgareddau hyfforddi yw gwella ansawdd ymarfer ac effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau i blant, ac oedolion a ddaw i gysylltiad â'n heglwysi a'n timau eglwys. Byddwn yn gofyn am adborth gan gyfranogwyr i ddeall eu profiad ac a yw hyfforddiant diogelu'n effeithio ar werthoedd a dealltwriaeth er mwyn sicrhau newid yn ymddygiad person.

Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn ceisio cael sicrwydd ynghylch presenoldeb a chydymffurfiaeth â gofynion hyfforddi a byddant yn gweithio gydag esgobaethau i gyflawni hyn. Bydd manylion presenoldeb mewn hyfforddiant ar gael i bob esgobaeth a gellir eu defnyddio i lywio prosesau adrodd a sicrwydd ynghyd â nodi anghenion heb eu diwallu. Bydd cofnodion presenoldeb unigolion mewn hyfforddiant diogelu'n cael eu cadw yng nghronfa ddata 'Pobl fy Eglwys'.

## Sicrhau ansawdd, adolygu a gwelliant parhaus

Mae sicrhau ansawdd yn rhan hanfodol o reoli hyfforddiant. Y Pwyllgor Diogelu fydd yn gyfrifol am oruchwylio ansawdd hyfforddiant yr Eglwys yng Nghymru. Bydd hyfforddiant yn destun gwelliant parhaus ac yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob blwyddyn gan Dîm Diogelu'r

Dalaith. Bydd yr adolygiad yn ystyried adborth cyfranogwyr, ac yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth, canllawiau ac arferion gorau.

Bydd proses graffu allanol yn cael ei chynnwys yn y broses hefyd, yn unol â datblygiadau arferion gorau a safonau rhagoriaeth gan sefydliadau statudol ac anstatudol sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

### Deunydd ychwanegol

Mae canllawiau papur, canllawiau ar-lein, siartiau llif, dolenni i ddysgu pellach a chyngor yn ategu'r hyfforddiant diogelu. Cyfeirir at y rhain a'u darparu, fel y bo angen, yn ystod darpariaeth yr hyfforddiant. Mae dogfennau Canllawiau Diogelu ar gael ar dudalennau diogelu gwefan yr Eglwys yng Nghymru hefyd https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/safeguarding/